

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and  
Education Committee

Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg |  
Priorities for the Children, Young People and Education Committee

CYPE 25

Ymateb gan : Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)

Response from : Education Workforce Council (EWC)

**Cwestiwn 1** - Yn y cylch gwaith uchod, yn eich barn chi, pa  
flaenoriaethau neu faterion y dylai'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac  
Addysg roi sylw iddynt yn y Pumed Cynulliad?

Mae'r Cyngor yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried y blaenoriaethau  
canlynol:

- Sut fydd polisi addysg yn cael ei ddatblygu yng Nghymru
- Datblygu'r gweithlu ac yn arbennig dysgu, datblygiad proffesiynol /  
proffesiynol parhaus (DPP)
- Recriwtio a chadw
- Gweithredu cwricwlwm a diwygio asesu (argymhellion adroddiad yr  
Athro Donaldson 'Dyfodol Llwyddiannus')
- Gweithredu diwygiadau HAGA (argymhellion gan yr Athro Furlong  
'Addysgu athrawon yfory')
- Maint dosbarthiadau
- Tâl datganoledig ar gyfer athrawon
- PISA
- Staff cyflenwi, gan gynnwys athrawon a gweithwyr cymorth dysgu
- Darpariaeth Gymraeg
- Rôl y consortia rhanbarthol
- Mae nifer cynyddol o staff cefnogi dysgu mewn ysgolion a  
cholegau, sut y cânt eu defnyddio a'r dysgu proffesiynol sydd ar gael  
iddynt
- Pwysigrwydd prentisiaethau yng Nghymru
- Mae datblygiad y gwasanaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru

**Cwestiwn 2** – O'r blaenoriaethau neu faterion a nodwyd gennych, beth yw'r prif feysydd, yn eich barn chi, y dylid rhoi sylw iddynt yn y 12 mis nesaf (nodwch hyd at dri maes neu fater)? Amlinellwch pam y dylid rhoi sylw i'r rhain fel prif flaenoriaethau.

Wrth benderfynu ar ei flaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf, mae'r Cyngor yn annog y Pwyllgor i ddewis meysydd sydd â'r prif amcan o "ddarparu'r addysg orau i ddysgwyr yng Nghymru" wrth wraidd ei benderfyniadau.

Ar ben hynny, yn dilyn sefydlu CGA o dan Ddeddf Addysg (Cymru), 2014, mae hi bellach yn gorff proffesiynol sy'n cwmpasu ysgolion, addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a'r sectorau gwaith ieuencid. Yn hanesyddol, mae datblygu polisi addysg a gweithredu yng Nghymru wedi:

- Dangos digon o gydnabyddiaeth o'r continwwm addysg ar draws sectorau
- heb fanteisio ar brofiadau ac arferion da bob amser mewn proffesiynau eraill

Byddai'r Cyngor yn annog y Pwyllgor i sicrhau ei fod yn mabwysiadu agwedd "traws-sector" wrth ddewis ei flaenoriaethau ynghyd â defnyddio arfer gorau o fewn a thu allan i faes addysg wrth ddatblygu datrysiadau.

### **Datblygu'r gweithlu – dysgu proffesiynol**

Mae sail dystiolaeth ryngwladol gref wedi dod i'r amlwg ar yr hyn sy'n gwneud dysgu neu DPP mewn addysg broffesiynol effeithiol. Awgrymwn y gallai'r Pwyllgor ystyried sut mae'r egwyddorion hyn wedi llywio ac y dylent lywio datblygiad a gweithredu polisi yng Nghymru, gan gynnwys:

- Pa mor effeithiol yw DPP yng Nghymru?
- A oes DPP ar gael i bawb yn y gweithlu yng Nghymru?
- A ddylai llwybrau gael eu datblygu er mwyn galluogi staff cymorth dysgu i symud ymlaen i fod yn athrawon neu i alluogi

athrawon AB i allu addysgu mewn ysgolion?

- Sut ydym yn sicrhau bod gennym arweinwyr effeithiol ym mhob lleoliad addysg yng Nghymru?

Ers cofrestru staff cymorth dysgu am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2016, mae data newydd gan CGA yn cadarnhau ein bod yn agos at gael gweithlu ysgol sy'n cynnwys 50% o athrawon a 50% staff cymorth yng Nghymru.

Er bod dyheadau polisi, er enghraifft, ar gyfer 'proffesiwn Addysgu lefel Meistr' yn ganmoladwy, mae CGA yn teimlo bod datblygiad proffesiynol o safon uchel yn hanfodol i bob grŵp er mwyn gwella canlyniadau i ddysgwyr.

### **Recriwtio a chadw**

Yn hanesyddol, nid yw Cymru wedi dioddef yr un materion â Lloegr wrth recriwtio a chadw ysgolion athrawon.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth i awgrymu y gallem fod yn gweld arwyddion cynnar o faterion recriwtio mewn ysgolion yng Nghymru, er enghraifft:

- Er i Lywodraeth Cymru haneri niferoedd hyfforddi athrawon ysgol yng Nghymru yn y ddegawd ddiwethaf, mae darparwyr hyfforddiant athrawon yng Nghymru yn dechrau cael trafferth i gyflawni eu targedau derbyn
- Yn draddodiadol, mae niferoedd ymgeiswyr am swyddi uwchradd penodol (er enghraifft Mathemateg, Saesneg, Cymraeg, Gwyddorau, AC) wedi bod yn isel fel y mae'r rhai ar gyfer swyddi cyfrwng Cymraeg
- Mae nifer o ysgolion yn adrodd mwy o anhawster i recriwtio penaethiaid
- Mae'n bosibl y gallai mentrau polisi ac ymgyrchoedd recriwtio cyhoeddusrwydd da yn Lloegr fod yn denu athrawon o Gymru i weithio yn Lloegr
- Mae gan Gymru lwybrau cyflogaeth cyfyngedig ar gyfer athrawon AB, staff cymorth neu eraill i hyfforddi fel athrawon

neu drosglwyddo rhwng sectorau ysgol

- Mae data a gyhoeddwyd yn dangos y bydd nifer y disgyblion yn codi yn y blynyddoedd nesaf, tra bydd y proffil oedran athrawon ysgol yn dirywio

Mae'r Cyngor yn gwahodd y Pwyllgor i ddechrau ymchwilio ac i geisio datrys y materion hyn yn gynnar.

### **Gweithredu adolygiad Donaldson ar Gwricwlwm ac Asesu ac adolygiad Furlong o Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon**

Roedd yr adolygiadau gan Donaldson a Furlong yn adroddiadau o bwys yng Nghymru. Mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn hanfodol i'r Pwyllgor gadw goruchwyliaeth o weithredu a gwerthusiad o'r argymhellion ym mhob adroddiad.

Byddai hefyd yn gwahodd y Pwyllgor i sicrhau bod yr argymhellion, lle bo hynny'n berthnasol, yn cael eu rhoi ar waith ym mhob sector addysg yng Nghymru ac nid yn unig mewn ysgolion, er enghraifft gallai'r argymhellion penodol mewn perthynas â hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol hefyd gael ei ymestyn i AB?